Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Y Pafiliynau**
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**
**Cwm Clydach**
**Tonypandy**
**CF40 2XX**

**Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

## Cyd-destun

Mae Rhondda Cynon Taf yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae wedi'i ffinio â Chaerdydd i'r de, Caerffili a Merthyr i'r dwyrain, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd. Cyfanswm y boblogaeth yw 234,309.

Yn Rhondda Cynon Taf, dywed 18% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 24.8%.

Roedd y gyfradd cyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf yn 62.3% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.4%. Mae bron i 25% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. O'r boblogaeth waith yn Rhondda Cynon Taf, nid oes gan 18% unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 13.7%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 25.2%. Mae hyn yn uwch na'r ffigur cenedlaethol, sef 19.7%. Dim ond un awdurdod arall yng Nghymru sydd â lefel uwch o gymhwyster (CYBLD 2011).

Mae deunaw o'r 152 o ardaloedd yn Rhondda Cynon Taf yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru erbyn hyn.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd 550 o blant yn Rhondda Cynon Taf yn cael gofal gan yr awdurdod. Roedd 340 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%

## Cyllid

Asesiad Gwariant Safonol Llywodraeth Cymru (AGS) ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn 2011-2012 i bob pen o'r boblogaeth oedd £1,762 (yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth canol blwyddyn 2010), sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £1,697.

Gosododd y Cyngor ei gyllideb refeniw gyffredinol ar 103% o'r AGS, uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 100.2%. Gosododd y gyllideb addysg ar lefel o 104.5% o'i ddyraniad cyllideb dangosol (IBA), uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 99.5%.

Gosodd y Cyngor ei gyllideb addysg ar £4,718 i bob disgybl heb grantiau. Mae hyn ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef £4,770.

Dengys ffigurau Llywodraeth Cymru bod yr awdurdod wedi dirprwyo 75% o'r gyllideb addysg a oedd ar gael i ysgolion yn 2011-2012. Mae'r lefel hon o ddirprwyo fymryn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 76%.

## Crynodeb

### Barn gyffredinol: Digonol

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- bod yr awdurdod yn gwella ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'i ysgolion trwy ddefnyddio data'n well;
- bod y cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwella ac yn cael effaith dda ar ddysgwyr;
- bod aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd yn ddiweddar ynglŷn â chau ysgolion;
- bod gan yr awdurdod hanes hir o weithio mewn partneriaeth a pherthnasoedd aeddfed, sy'n helpu i gyflwyno cydweithio yn effeithiol; a
- bod arweinyddiaeth yr awdurdod yn dechrau canolbwyntio'n graffach ar godi safonau ar gyfer dysgwyr.

Fodd bynnag:

- cymedrol yw'r safonau yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 ac maent yn rhy isel yng nghyfnod allweddol 4;
- mae defnydd yr awdurdod o ddata yn gwella, ond nid yw'n arfarnu nac yn dadansoddi deilliannau'n ddigon effeithiol i fod o fudd i unigolion a grwpiau o ddysgwyr;
- mae presenoldeb islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd ac ymhell islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg ledled Cymru;
- mae nifer y lleoedd dros ben yn rhy uchel, er bod cynlluniau cadarn ar waith i fynd i'r afael â hyn;
- mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn rhy anghyson; ac
- nid yw lefelau her a chraffu yn ddigon trylwyr ar draws gwasanaethau a phartneriaethau.

### Gallu i wella: Digonol

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn ddigonol oherwydd:

- bod arweinwyr a rheolwyr wedi ymrwymo'n gryf i gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol i wella safonau ar gyfer dysgwyr; a
- bod yr awdurdod wedi ymrwymo i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad yn 2011, o ystyried cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi dirywio ers blynyddoedd blaenorol;
- bod gwelliannau yn rhy ddiweddar i ddangos hanes llwyddiannus;

- nid aethpwyd i'r afael yn llawn ag argymhellion blaenorol i wella presenoldeb a lleihau nifer y lleoedd dros ben; ac
- mae newidiadau o ran rheolwyr yn yr awdurdod yn rhy newydd i ddangos eu heffaith ar ddysgwyr.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Gyngor Rhondda Cynon Taf:

A1 godi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;

A2 gwella cyfraddau presenoldeb ym mhob ysgol;

A3 gwella arfarniadau a dadansoddiadau data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau i ysgogi gwelliannau mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr;

A4 defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion;

A5 lleihau nifer y lleoedd dros ben; a

A6 gwella trylwyredd a lefel y craffu a'r her ar draws yr holl wasanaethau a phartneriaethau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad. Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yng nghategori gweithgarwch dilynol ymweliad monitro gan Estyn.

Yn ystod pob arolygiad craidd, mae'r tîm arolygu'n ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol:

1 Astudiaeth achos arfer dda
2 Monitro gan arolygydd cyswllt
3 Ymweliad monitro gan Estyn
4 Gwelliant sylweddol
5 Mesurau arbennig

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio i ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu bwydo i Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach â Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Digonol

**Safonau: Digonol**

Cyfran y disgyblion yn Rhondda Cynon Taf sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw'r uchaf ond un yng Nghymru. Pan ystyrir y lefelau uchel hyn o amddifadedd, mae perfformiad disgyblion yn ddigonol ar y cyfan. O gymharu perfformiad ysgolion Rhondda Cynon Taf â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail y ganran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn gymedrol ar y cyfan yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3. Mae'n gymedrol yng nghyfnod allweddol 4 ar ddau o'r pum prif ddangosydd hefyd. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y tri dangosydd arall, yn cynnwys trothwy lefel 2 gyda Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, islaw'r cyfartaledd. Mae dros hanner yr ysgolion islaw'r canol ac mae gormod o ysgolion yn y 25% gwaelod.

Mewn blynyddoedd blaenorol, fe wnaeth Rhondda Cynon Taf fodloni neu ragori ar bob un o dri meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2011, methodd fodloni dau o'r tri meincnod hyn o drwch blewyn. Yn 2011, ni wnaeth canran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wella mor gyflym ag y gwnaeth yng Nghymru gyfan.

Mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 ac yn gymedrol yng nghyfnod allweddol 4 ar y cyfan.

Yn 2011, yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, roedd y bwlch mewn perfformiad ar y dangosydd pwnc craidd rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ledled Cymru. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, roedd y bwlch yn ehangach na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill yn debyg i'r bwlch yng Nghymru gyfan.

Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys grwpiau agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud y cynnydd disgwyliedig rhwng y cyfnodau allweddol ar y cyfan. Mae dysgwyr sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd da ac mae llawer ohonynt yn cynnal y gwelliant hwn hyd at ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno prawf darllen ym mhob un o'i ysgolion yn ddiweddar. Mae'r profion hyn yn dangos bod oedrannau darllen islaw llythrennedd swyddogaethol cyfran fwy na'r cyfartaledd o ddysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn 2011, roedd perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn dda mewn ysgolion cynradd er ei fod islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad yn dda mewn Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith.

Mae dysgwyr yn ennill amrywiaeth dda o gymwysterau o ganlyniad i'r ystod eang o gyfleoedd a ddarperir mewn lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol a lleoliadau anffurfiol.

### Lles: Digonol

Mae presenoldeb islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd ac ymhell islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd, o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae gormod o ysgolion yn y 25% gwaelod ac nid oes digon o ysgolion yn y 25% uchaf.

Bu cynnydd yng nghyfradd y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yn 2011. Fodd bynnag, mae nifer y diwrnodau sy'n cael eu colli yn sgil gwaharddiadau cyfnod penodol yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae cyfraddau dilyniant ôl-16 i'r ysgol a'r coleg yn dda, ac mae'r gyfradd wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf. Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NACH) yn 2010, ac nid oedd gystal â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae data dros dro a data nas gwiriwyd ar gyfer 2011 yn awgrymu bod hyn wedi gwella a'i fod yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae deilliannau i ddysgwyr o raglenni mwy cyffredinol ar gyfer lles yn gwella. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn dda ac yn dysgu'n dda o fentrau ysgolion a gwaith ieuenctid. Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon yn dda ac yn gwella o gymharu â chyfraddau ymglymiad Cymru gyfan. Mae cyfran uchel o ddysgwyr yn elwa ar ystod eang o fentrau mewn lleoliadau cynradd, uwchradd a gwaith ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau brecwast, rhaglen deuluol On Track, E3+ a gweithgareddau ar ôl yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau cwnsela yn gwella eu hymddygiad, eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n dda at benderfyniadau am bolisi a darpariaeth i blant a phobl ifanc. Er enghraifft, cyfrannodd dros 9,000 o bobl ifanc at arolwg yn 2010-2011. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r awdurdod yn defnyddio deilliannau o gyfraniadau dysgwyr yn effeithiol i gynllunio gwelliannau i wasanaethau.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol

### Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol

Mae'r awdurdod wedi gwella ei brosesau i gefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion yn ddiweddar. Yn benodol, mae prosesau i gategoreiddio ysgolion yn graffach, mae mwy o ffocws i adolygiadau, ac mae ymgysylltiad uniongyrchol y prif swyddog addysg yn fwy effeithiol. Mae diwylliant cryf o her erbyn hyn, sy'n cael ei arwain gan y cyfarwyddwr addysg a benodwyd yn ddiweddar. Mae swyddogion yn dechrau mynd i'r afael â thanberfformio yn fwy trylwyr, fel rheoli perfformiad gwan rhai penaethiaid cynradd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn i nodi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn gymharol ddiweddar, ac nid ydynt wedi cael amser eto i effeithio'n sylweddol ar safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'i ysgolion. Mae'n darparu ystod dda o ddadansoddiadau data ar gyfer ysgolion ac mae swyddogion yn gwneud defnydd cynyddol o hyn i nodi ysgolion sy'n tanberfformio a thargedu

ymyriadau. Fodd bynnag, cedwir gwybodaeth berthnasol mewn gwahanol gronfeydd data, ac mae felly'n anodd i'r awdurdod ddwyn set gynhwysfawr o wybodaeth ynghyd sydd ei hangen ar swyddogion i nodi a thargedu tanberfformio yn fwy effeithlon.

Mae'r awdurdod wedi gosod meini prawf a chategorïau clir ar gyfer ymyrraeth, her a chymorth, ac mae wedi dyfeisio ei system fandio ei hun ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn deall y band a'r categori y mae eu hysgol ynddo, a'r cymorth y byddant yn ei gael. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion cynradd yn glir ynghylch p'un ai'r categori her a chymorth neu system fandio'r awdurdod sy'n ysgogi'r ymyriadau yn eu hysgolion.

Mae uwch swyddogion wedi comisiynu adolygiadau eang iawn, yn arbennig o ran ysgolion sy'n achosi pryder. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys ffocws clir ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn arfarnu pob agwedd ar arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob ysgol yn rheolaidd. Mewn nifer fach o ysgolion, ni fu swyddogion yn ymwybodol o'r materion a arweiniodd at roi'r ysgol yng nghategori gweithgarwch dilynol Estyn o ganlyniad i arolygiad.

Mae prosesau i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion a'r her y maent yn ei chynnig i ysgolion yn gwella ond nid ydynt yn ddigon cadarn eto i wneud yn siŵr bod pob swyddog yn perfformio'n gyson. O ganlyniad, mae gormod o ysgolion nad ydynt yn gwella'n ddigon cyflym. Nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar gyfran uchel o ysgolion ar ôl eu harolygiadau, ac mae angen gwella dwy ysgol gynradd yn sylweddol ar hyn o bryd. Nid yw'r awdurdod wedi defnyddio ei ystod lawn o bwerau i wella ysgolion eto.

Nid yw'r cydweithio rhwng swyddogion gwella ysgolion a gwasanaethau eraill yr awdurdod fel mynediad a chynhwysiant cymdeithasol wedi'i ddatblygu'n ddigon da eto i effeithio ar safonau ar gyfer pob dysgwr.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ystod o fentrau defnyddiol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a'r Cyfnod Sylfaen. Er bod strategaeth lythrennedd yr awdurdod, a gyflwynwyd yn ddiweddar yn gynhwysfawr, nid yw wedi effeithio ar safonau eto.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i arweinwyr newydd mewn ysgolion, yn cynnwys defnyddio mentoriaid cymheiriaid mewn ysgolion cynradd. Rhoddir cymorth da i lywodraethwyr ar y cyfan. Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol i gyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol i helpu llywodraethwyr i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da**

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Mae asesiadau o anghenion cymorth dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi gwella'n sylweddol. Mae'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag anhwylder y sbectrwm awtistig wedi datblygu'n dda. Mae'n helpu dysgwyr i gyflawni a gwneud cynnydd da.

Mae'r awdurdod yn mynd ati'n dda i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran plant

a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhondda Cynon Taf sydd ag un o'r canrannau isaf o ddisgyblion â datganiadau yng Nghymru, sef 1.5%. Mae rhieni a gofalwyr yn hyderus y bydd yr awdurdod yn bodloni anghenion eu plant heb fod angen datganiad, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan waith grŵp partneriaeth rhieni'r awdurdod. Ychydig iawn o apeliadau a wneir i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o'r herwydd (TAAAC).

Mae gwasanaethau cymorth yn mynd ati'n effeithiol i olrhain a monitro cynnydd unigolion a grwpiau o ddysgwyr sy'n cael cymorth targedig. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r gwasanaethau hyn sy'n arfarnu data ac yn herio ysgolion yn ddigon da i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oes gan yr awdurdod system ddigon effeithiol eto i gasglu ac arfarnu'r holl ddata ar berfformiad yr holl ddisgyblion ag anghenion ychwanegol. Byddai hyn yn eu galluogi i gael darlun cliriach o b'un a yw'r holl ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud. Nid yw hyn yn helpu'r awdurdod i gynllunio a thargedu gwelliannau i'r gwasanaethau yn ddigon effeithiol.

Mae'r awdurdod yn helpu ysgolion i wella eu capasiti eu hunain i ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mewn meysydd fel anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, mae angen gwneud mwy o waith.

Mewn cynllun peilot diweddar o Gyllid Anghenion Ychwanegol, dirprwyodd yr awdurdod gyllid i un clwstwr o ysgolion. Defnyddiodd penaethiaid yr adnoddau hyn mewn ffordd fwy hyblyg i fodloni anghenion disgyblion. Nid yw'r model hwn o ddirprwyo ar gael ar draws pob clwstwr o ysgolion eto. O'r herwydd, nid oes gan yr awdurdod ddigon o dystiolaeth i arfarnu ei effaith ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae'r gwasanaeth mynediad a chynhwysiant yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid amlasiantaethol. Fodd bynnag, nid yw'r cydweithio gyda swyddogion gwella ysgolion yn ddigon effeithiol i helpu codi safonau ar gyfer pob dysgwr.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol**

Mae'r awdurdod yn cydnabod yn glir yr her y mae'n ei hwynebu o ran gwella presenoldeb dysgwyr. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2010, mae wedi buddsoddi mewn adnoddau sylweddol i helpu ysgolion i wella presenoldeb dysgwyr, ac wedi seilio ad-drefniad diweddar o wasanaethau ar arfer dda a nodwyd mewn awdurdodau lleol eraill ac ar ymgynghoriadau effeithiol gydag ysgolion. Caiff y strategaeth presenoldeb a lles newydd ei chefnogi'n dda gyda chynllun busnes dwy flynedd. Mae gan y gwasanaeth presenoldeb a lles systemau data da i olrhain cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi gwella cyfraddau presenoldeb hyd yn hyn, sy'n parhau i fod yn gyson wael.

Mae cymorth ymddygiad yn gwella ac mae'r awdurdod wedi cryfhau a ffurfioli ei brotocol symudiadau rheoledig. Caiff ysgolion hyfforddiant da i gynyddu eu capasiti i ddelio â materion ymddygiad eu hunain, ac maent yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Nid yw'r data i arfarnu effeithiolrwydd strategaethau gwrth-fwlio, ynghyd ag effaith polisïau ynghylch ymddygiad hiliol, yn ddigon trylwyr i nodi tueddiadau yn yr

agweddau hyn ar ymddygiad. At ei gilydd, nid yw targedau ar gyfer rheoli ymddygiad yn ddigon heriol, ac mae nifer y gwaharddiadau wedi bod yn cynyddu.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod dda o wasanaethau a rhaglenni cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n rhoi lefelau uchel o gymorth i raglenni sy'n helpu pobl ifanc ddi-waith i ennill medrau a chael swyddi. Disgwylir iddo roi dull amlasiantaethol tîm o amgylch y teulu ar waith ar gyfer mecanweithiau cymorth mwy cadarn lle bydd angen. Rhoddir cymorth da i blant sy'n cael gofal, ac mae'r gwasanaethau cwnsela yn dda iawn.

Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn rhoi ffocws da ar helpu llawer o ddysgwyr i ennill medrau a chredydau. Mae'r cydweithio a'r cydgynllunio rhwng clybiau ieuenctid wedi galluogi rhai ohonynt i wella ymgysylltiad dysgwyr. Mae datblygu Grwpiau Clwstwr Gweithredol Ieuenctid yn y gwasanaeth ieuenctid wedi cryfhau rhan asiantaethau cymorth eraill.

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi a gweithdrefnau clir yn ymwneud â diogelu. Mae systemau'n sicrhau bod staff addysg a phartneriaid yn cael eu gwirio a'u monitro'n briodol gan y SCT. Cyflwynir rhaglen strwythuredig o hyfforddiant diogelu i staff. Fodd bynnag, nid yw systemau i sicrhau bod y gronfa ddata hyfforddiant yn gyfoes yn ddigon trylwyr.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Mae niferoedd y lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i fod yn rhy uchel. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â hyn trwy roi cynlluniau a chynigion priodol ar waith ar gyfer ad-drefnu ysgolion, sydd wedi'u bwriadu i leihau nifer y lleoedd dros ben i 16% dros gyfnod o saith mlynedd. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cau ysgolion, uno ysgolion eraill, adnewyddu ysgolion presennol ac agor ysgolion newydd. Ar hyn o bryd, mae cynigion yr awdurdod i gau tair ysgol uwchradd ac adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn mynd rhagddynt yn dda.

Mae swyddogion wedi sicrhau ymrwymiad gan aelodau etholedig i gyflwyno'r cynlluniau hyn trwy raglen ysgolion yr 21ain ganrif gwerth £160 miliwn, sy'n cynnwys cymeradwyaeth ddangosol o £75 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan y cyngor gronfa ddata briodol a chyfoes ar gyflwr, addasrwydd a digonolrwydd ei holl ysgolion, y mae'n ei defnyddio'n dda i fynd i'r afael ag atgyweiriadau a materion cynnal a chadw.

Mae gwybodaeth am gapasiti ysgolion a'u niferoedd derbyn yn gadarn a chyfoes. Mae mwyafrif yr ysgolion yn fodlon â'r broses dderbyn a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod. Rhoddir lle yn eu hysgol dewis cyntaf i'r holl ddisgyblion uwchradd, ac fe gaiff bron pob disgybl cynradd le yn yr ysgol a ddewiswyd yn gyntaf gan eu rhieni.

Mae'r archwiliad o ddigonolrwydd gofal plant yn dangos bod digon o leoedd meithrin ar gael i'r holl rieni sy'n gofyn am un, ac mae staff yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn cael hyfforddiant o ansawdd da yn eu gwaith.

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig ystod dda o wasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, nid oes ganddo drosolwg priodol o'r gwasanaethau hyn, na dealltwriaeth glir ynghylch pa rai yw'r gwasanaethau ieuenctid, a pha rai yw'r gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach. Mae diffyg eglurder ynglŷn â'r ffordd y mae gwahanol wasanaethau yn gweithio orau gyda'i gilydd i fodloni anghenion pobl ifanc. Nid yw pob un o'r swyddogion a'r partneriaid perthnasol yn gwybod os neu sut y caiff y gwasanaethau hyn eu cydlynu i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn derbyn eu hawliau. Mae hyn yn golygu na allant gydlynu'r gwasanaethau hyn yn ddigon effeithiol.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Digonol

### Arweinyddiaeth: Da

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi cymryd camau pendant i wella gwasanaethau i ddysgwyr. Mae gan aelodau etholedig ac uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o faterion addysg ar draws yr awdurdod ac maent yn gwybod nad yw cyflymder y gwelliant wedi bodloni eu dyheadau.

O'r herwydd, mae'r cyfarwyddwr wedi cynnal adolygiad strategol lefel uchel o'r gwasanaeth. Mae wedi cytuno ar flaenoriaethau newydd ar gyfer addysg o amgylch themâu presenoldeb, llythrennedd, rhifedd, defnyddio data i wella atebolrwydd am berfformiad a gwella'r amgylchedd dysgu.

Mae'r defnydd o ddata yn gwella'n raddol, sy'n helpu swyddogion i herio ysgolion yn fwy effeithiol a dwyn timau arweinyddiaeth ysgolion i gyfrif am berfformiad eu hysgolion. Mae adroddiadau swyddogion i'r Cyngor yn rhoi manylion clir ar gynnydd, er bod y broses newid hon yn rhy ddiweddar i weld ei heffaith ar safonau.

Mae gan y cyngor hierarchaeth glir o gynlluniau gyda chysylltedd cyson rhwng blaenoriaethau. Mae templed cynllunio corfforaethol yn rhoi cysondeb da i gynllunio busnes ar draws yr awdurdod. Mae cynllun gwella'r Cyngor yn cynnwys amcanion gwella clir. Caiff adroddiadau am berfformiad eu cydlynu'n ganolog, sy'n galluogi aelodau etholedig i gael gwybodaeth briodol yn ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw aelodau etholedig yn cael adroddiadau ar lefel ysgol unigol yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu nad yw aelodau yn gallu herio perfformiad yn ddigon effeithiol.

Mae aelodau etholedig wedi dangos eu gallu i wneud penderfyniadau anodd, yn enwedig o ran cau ysgolion unigol a llunio cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ar gyfer rhaglen ysgolion y cyngor yn yr 21ain ganrif.

### Gwella ansawdd: Digonol

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi gosod ffocws clir ar gyfer gwella er mwyn mynd i'r afael â thanberfformio a chodi safonau ar gyfer pob dysgwr. Mae aelodau etholedig ac uwch arweinwyr yn gwybod beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn dda. Maent wedi rhoi camau priodol ar waith i ysgogi newid. O'r herwydd, mae cynnydd priodol yn digwydd ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn, nid yw'r awdurdod wedi cyflawni'r holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn llawn, yn

enwedig y rhai am wella presenoldeb a lleihau lleoedd dros ben.

Mae pwyllgorau craffu yn nodi ac yn ymyrryd yn briodol lle mae agweddau ar addysg yn peri pryder. Er enghraifft, gweithiodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Plant gyda'i gilydd yn dda i herio pryderon am lywodraethu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI), a elwir yn 'Fframwaith'. Fodd bynnag, ni chaiff pob un o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor craffu eu rhoi ar waith.

Nid yw'r wybodaeth a roddir i'r pwyllgor craffu bob amser yn ddigon clir i alluogi iddo gynnig her gadarn i wasanaethau. Mae trefniadau newydd wedi dechrau mynd i'r afael â hyn.

Fe wnaeth aelodau etholedig a swyddogion ymgymryd yn dda â pharatoi'r adroddiad hunanarfarnu ar gyfer yr arolygiad. Mae arfarnu arferol ar draws yr awdurdod, ac mae gan y gyfarwyddiaeth broses ac amserlen ddefnyddiol i gydlynu hunanarfarnu ar lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, mae adroddiadau arfarnu yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn cynnwys dadansoddiad digonol i helpu'r awdurdod i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol.

Mae dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn ymgymryd yn dda ag arfarnu mentrau i gefnogi addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae arfarniadau'n cynnwys canfyddiadau dysgwyr yn unig yn rhy aml, ac nid ydynt yn ystyried pa mor dda y mae'r fenter wedi effeithio ar anghenion blaenoriaeth neu ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae'r awdurdod yn nodi risgiau a rhwystrau rhag gwneud cynnydd yn dda. Mae wedi dechrau defnyddio ei bwerau llawn yn briodol i wella perfformiad ysgolion pan fydd angen.

Mae gan yr awdurdod lleol lawer o ddata, gan fod ystod eang o ddata defnyddiol ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth hon. Nid yw gwasanaethau yn rhannu gwybodaeth yn ddigon da ar draws gwahanol setiau data, ac nid yw ar gael o un ffynhonnell ganolog i'r holl wasanaethau allu cael ati yn hawdd.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae'r gweithio mewn partneriaeth yn gryf yn Rhondda Cynon Taf. Mae wedi datblygu'n dda dros sawl blwyddyn ac yn ffurfio sylfaen dda i beri newid ac ysgogi gwelliannau ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, ni all yr awdurdod ddangos pa mor dda y mae deilliannau o weithio mewn partneriaeth yn effeithio ar ddysgwyr, yn enwedig ar gyfer y gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at wella cyflawniad, cyrhaeddiad a lles.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda phartneriaid mewnol, allanol a thraws ffiniol ac yn barod iawn i addasu i fodloni polisïau a mentrau newydd ar gyfer dysgwyr yn yr ardal. Caiff olwg glir ar bartneriaethau strategol ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r rolau a'r cyfrifoldebau gwahanol ar y cyfan. Fodd bynnag, ni chaiff yr atebolrwydd am y ddyletswydd statudol i gydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn effeithiol ei ddeall yn ddigon da.

Mae 'Fframwaith' y PPPhI yn cynnwys cofnod da iawn o ddatblygu amrywiaeth eang o weithgareddau a mentrau i fodloni blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, nid oes gan y Fframwaith strategaeth glir ar gyfer ei ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid. Nid oes ganddo ddadansoddiad cyfoes o anghenion i gyd-fynd â dadansoddiad o'r gwasanaeth, neu ddadansoddiad clir o adnoddau. Ni chaiff perfformiad ei reoli'n glir ac nid yw atebolrwydd partneriaid a lefelau'r her i berfformiad y bartneriaeth wedi gwella digon.

Mae'r bartneriaeth rhwng gwasanaethau addysg ac ysgolion yn gwella, ond nid yw'n ddigon effeithiol i gyflawni gwelliannau mewn deilliannau i bob dysgwr eto.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac aelodau etholedig wedi cydnabod bod angen gwella strwythurau a deilliannau partneriaethau, ac maent wedi cynnal adolygiad strategol o bartneriaethau statudol yn ddiweddar. O ganlyniad i hyn, mae proses gynllunio integredig unigol yn cael ei datblygu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd partneriaethau statudol.

Mae'r awdurdod yn cyfrannu'n dda at ddatblygu gwasanaeth gwella ysgolion consortiwm Canolog y De. Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gwasanaeth newydd ac arweinydd yr awdurdod yw'r Aelod Arweiniol ar gyfer y consortiwm. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i hyn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r awdurdod wedi diogelu cyllidebau ysgolion unigol yn dda rhag effaith toriadau mewn cyllid, sy'n adlewyrchu ei ymrwymiad i addysg yn glir.

Mae cynllunio busnes yr awdurdod yn cyd-fynd yn dda â chynllunio ariannol cryf yn y tymor canolig, rheolaeth ariannol effeithiol a chynllunio'r gweithlu. Mae hyn yn gwneud gwelliannau arfaethedig yn bosibl. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio data yn ddigon effeithiol bob amser wrth gynllunio ar gyfer gwella.

Yn sgil ailstrwythuro gwasanaethau, caiff adnoddau staff eu hailalinio'n dda i gefnogi dysgu a gwella yn fwy effeithiol. Mae staff yn cymryd rhan mewn ystod dda o raglenni datblygu trwy raglen datblygu gweithlu'r awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cynllun i ymestyn rhaglen datblygu uwch reolwyr i uwch athrawon.

Mae'r awdurdod wedi dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer ei bum blaenoriaeth addysgol. Mae'n gwneud defnydd da o ffynonellau ariannu eraill hefyd er mwyn i brosiectau llwyddiannus barhau.

Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd da o gyllid ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae wedi lleihau lleoliadau y tu allan i'r sir, wedi datblygu meini prawf gadael a dechrau clir, ac mae ganddo niferoedd isel o apeliadau a datganiadau. Mae'r awdurdod yn dechrau gwella'r defnydd o arfarniadau i lywio cynllunio adnoddau yn well.

Mae'r awdurdod yn gweithio mewn modd adeiladol gydag ysgolion i gynyddu cyllid dirprwyedig. Mae'r model peilot o ddirprwyo cyllid i glystyrau o ysgolion wedi

gweithio'n dda, ac mae ymgynghori ar ddirprwyo ymhellach yn yr arfaeth.

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol i arfarnu digonolrwydd ac addasrwydd adeiladau ar gyfer dysgu.  Mae wedi dyrannu cyllideb flynyddol o £6m i gyflwyno rhaglen cynnal a chadw ar gyfer ysgolion.

Mae darpariaeth y cymorth ariannol i ysgolion yn dda.  Mae'r awdurdod yn monitro ac yn herio diffygion yng nghyllidebau a gwargedau ysgolion yn dda.  Mae wedi gwella o fod â'r cronfeydd wrth gefn uchaf i ysgolion yn 2009-2010 i fod yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn 2010-2011.

Nid oes dealltwriaeth glir o b'un a yw gwasanaethau o fewn 'Fframwaith' wedi darparu gwerth am arian, am nad yw'r arfarnu'n ddigon effeithiol.  Mae gofyn i holl drefniadau comisiynu 'Fframwaith' gael asesiad gwerth am arian erbyn hyn.

At ei gilydd, o ystyried y deilliannau a gyflawnir, mae'r gwerth am arian yn ddigonol.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Meinir Rees AEM | Arolygydd Tîm |
| Betsan O'Connor AEM | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Tîm |
| Mererid Stone AEM | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Sue Halliwell AEM | Arolygydd Cysgodol |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Samantha Spruce | Swyddfa Archwilio Cymru |
| John Maitland Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Esther Thomas | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)